Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod  a gynhaliwyd ar y 14eg Dachwedd 2022.

Presennol– Mari E M Mathews Cadeirydd,  Neil Pringle, Janet Charlton, Catherine Williams, Ffiona Jones,  Anna Brown, Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau -  Neil Pringle
Datgan diddordeb -  Dim datganiad
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Hydref 2022

Materion yn codi

(1) Yr Heddlu
Adroddodd PCSO Peter Jones  fel a ganlyn;  [a] Lladrata o siop Cotswolds  [b] Ffenest wedi ei thorri ar Ffordd Caergybi [c] Difrod wedi ei wneud i fodur ar Ffordd yr Orsaf,  Difrod wedi ei wneud i goed ar ymyl y ffordd.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair
Penderfynwyd gohirio'r mater nes bydd mwy o wybodaeth ar gael.

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy
Deallwyd nad oes caniatâd cynllunio wedi ei dderbyn hyd hyn.

[1.3 Caffi 'r Rheilffordd  Fach
Nodwyd ymateb gan APCE bod cysylltiad wedi ei wneud gyda'r perchennog ynglŷn â chyflwr y lleoliad.

[1.4] Materion Parcio Bro Gethin
Dywedodd y Cadeirydd ei bod  yn ceisio gwybodaeth ynglŷn cwmnïau i wneud astudiaeth dichonoldeb

[1.5]Llystyfiant Pont-y-Pair
Nodwyd yn siomedig nad oedd y gwaith wedi ei wneud oherwydd diffyg diddordeb gan gwmni  i wneud y gwaith.

[1.6] Dyn mewn Fan
Nodwyd nad oedd ymateb wedi ei  gan Edward Jones APCE ynglŷn â'r syniad i rannu 'r cynllun o ddyn mewn fan

[1.7] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.8] Holiadur Cymuned
Penderfynwyd gweithredu'r cynllun. Diolchwyd I'r Cadeirydd Mari E M Mathews am gwblhau gweledigaeth gwerthfawr i anghenion y gymuned.

[1.9] Cyfyngiad Aros ar yr A5 gyferbyn a Siop Anna Davies
Penderfynwyd gwrthwynebu'r bwriad i lacio cyfyngiad parcio o flaen siop Anna Davies

[1.9] Clwb Peldroed Betws/ Codi Uchder y Fense
Dywedodd y clerc  ei fod yn disgwyl amcan bris ar gyfer gwneud y gwaith

[2] Safle We'r Cyngor
Y clerc i drefnu cyfarfod gyda Nick Ferguson / Mari E M Mathews.

[2.1] Hen Eglwys Saint Mihangel
Eglurodd y clerc nad oes ateb wedi ei dderbyn gan y Parch Stuart Elliot ynglŷn â chyflwr y fynwent. Cytunodd y Cyng Janet Charlton i gael golwg.

[2.2] Mynwent Erw Hedd
Y clerc i drafod y mater ymhellach gyda y Cyng Neil Pringle

Y Brif Agenda
[2.3] Materion Cynllunio
Cais Cynllunio NP4/11/58H Newid defnydd garej ac adeilad allanol a.y.b. Ffermdy'r Royal Oak. Nodwyd y gwrthwynebiad gan Mr Peter Jones Hughes ar ran Mr Adrian Houghton i'r cais uchod

[2.4] Materion Ariannol
[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Hydref 2022
[b] Eglurodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Raeadr Ewynnol  wedi gostwng yn gymharol i gyfnod  mis Hydref 2021 2021.

[2.5] Galw I Mewn Eglwys Santes Fair
Dywedodd yr Is gadeirydd Anna Brown ei bod wedi  trefnu  sesiwn "Galw I Mewn" yn Eglwys Santes Fair ar y 9fed Ragfyr o 1.00 hyd i 3.00 y prynhawn.

[2.6] Gwelliannau Glan yr Afon Pont-y-Pair
Penderfynwyd derbyn y prisiau canlynol i ymgymryd a'r gwaith;
[a] C T Roberts 4608.00 [b] Plastecwood £4608.00

[2.7]  Ymgynghoriad Ardal Cadwraeth/ APCE
Penderfynwyd nad oedd sylwadau pellach, oddigerth sylwadau a anfonwyd yn flaenorol ,sef y dylai Pont-y-Soldiwr gael ei chynnwys fel rhan o'r Ardal Cadwraeth.

[2.8] Cyfraniad/Urdd Gobaith Cymru
Penderfynwyd cyfrannu £100.00 tuag at Urdd Gobaith Cymru.

Mari  E M Mathews, Cadeirydd